

2025/26

DSA1

Nodiadau i'ch helpu i
llenwi'ch ffurflen DSA1

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais.

Bydd y llyfryn nodiadau hwn yn eich helpu i ateb y cwestiynau yn y ffurflen gais. Bydd hefyd yn dweud wrthy'ch pa dystiolaeth y bydd angen i chi ei darparu i ganiatáu i ni asesu'n llawn eich hawl i gael Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl.

Dychwelir unrhyw dystiolaeth wreiddiol y byddwch yn ei hanfon gyda'ch ffurflen gais atoch cyn gynted ag y bo modd.

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl?

Trowch at www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Fersiynau Braille, print mawr neu sain o ffurflenni a chanllawiau

Gallwch archebu fersiynau Braille, print mawr neu sain o ffurflenni a chanllawiau trwy anfon e-bost gan nodi'ch enw, eich cyfeiriad, eich Cyfeirnod Cwsmer a pha ffurflen a ffurf y mae angen i chi ei gael, at:

- brailleandlargefonts@slc.co.uk

neu gallwch ein ffonio ar

- **0141 243 3686**

Sylwer mai dim ond ceisiadau am ffurfiau amgen o ffurflenni a chanllawiau fydd modd i'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio gyda nhw.

Sut allaf gysylltu â chi?

- Trowch at www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk
- Ffoniwch Canolfan Gyswilt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050**

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch, ewch i www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.

Efallai y byddwch yn gymwys am fwrsariaeth neu ysgoloriaeth. Er mwyn i brifysgol neu goleg allu pennu a thalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth y bydd gennych hawl iddo, byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch manylion personol, ariannol a chwrs yn ogystal â gwybodaeth am eich cymhwyster am gyllid i fyfyrwyr gyda nhw.

Am ragor o wybodaeth am hyn, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Cysylltwch â'r brifysgol neu goleg os ydych chi angen rhagor o wybodaeth yngylch eu bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.

Beth fydd angen i mi ei wneud er mwyn cael Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl (DSA)?

Dyma grynodedb o'r camau y bydd angen i chi eu cymryd i wneud cais am DSA a'i gael.

1. Ymgeisio am DSA

Cwblhewch bob adran yn y ffurflen hon a'i hanfon yn ôl gyda'r holl dystiolaeth rydym wedi gofyn amdani. Gorau po gyntaf y byddwn yn derbyn eich ffurflen a'ch dystiolaeth – y cyflymaf y byddwn yn gallu dweud wrthy ch a allech gael DSA.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi a dyddio'r telerau ac amodau.

2. Darganfyddwch yn union pa offer a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch

Os ydych yn gallu cael DSA, efallai y bydd angen i chi gael asesiad anghenion astudio. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth gywir i'ch helpu i gwblhau eich cwrs. Os bydd angen i chi gael asesiad, byddwn yn anfon llythyr atoch i ddweud wrthy ch sut i wneud hyn. Bydd yr aseswr anghenion eisiau gweld copi o'ch dystiolaeth anableded cyn yr asesiad.

Os oes gennych asesiad anghenion astudio, byddwn yn cael adroddiad yn argymhell pa gefnogaeth ac offer y bydd eu hangen arnoch. Bydd hefyd yn rhoi gwybod i ni faint y bydd yn ei gostio a phwy all ei ddarparu. Byddwch yn derbyn copi o'r adroddiad hwn. Byddwn yn edrych ar yr argymhellion ac yn gwneud ein penderfyniad terfynol.

3. Cael eich offer a chefnogaeth

Byddwn yn anfon llythyr hawl DSA atoch i ddweud wrthy ch pa offer a chymorth arall y byddwch yn cael DSA ar eu cyfer. Bydd y llythyr hefyd yn dweud wrthy ch sut i gael eich cefnogaeth. Peidiwch â phrynu offer na threfnu cymorth cyn i chi gael y llythyr hwn. Ni fyddwn yn gallu ad-dalu'r costau hyn yn ôl i chi.

Adran 1 - manylion personol

Manylion personol

- a** Os ydych chi wedi cael 'caniatâd i aros' fel Unigolyn heb Ddinasyddiaeth, gallwch nodi 'Dim' neu 'Heb Ddinasyddiaeth' yn y blwch Cenedligrwydd.

Manylion eich tystiolaeth hunaniaeth

- b3** Os yw'ch enw wedi newid o'r enw sy'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu'ch pasbort, dylech anfon y dystiolaeth berthnasol sy'n cadarnhau hyn, gan ddarparu manylion unrhyw enwau blaenorol a fu gennych chi.

Dychwelir eich dogfennau atoch cyn gynted ag y bo modd.

Os ydych wedi colli'ch Tystysgrif Geni, gallwch gael un newydd trwy gysylltu â'r Swyddfa Gofrestru yn yr isranbarth lle cofrestrwyd eich genedigaeath.

Benthyciadau blaenorol

- c** Os ydych ar ei hôl hi gyda'r ad-daliadau ar gyfer benthyciad blaenorol, ni ddylech wneud cais am gyllid i fyfyrwyr nes byddwch wedi datrys y mater hwn.

Os ydych wedi cael unrhyw Fenthyciadau Arddull Morgais (MS) yn flaenorol, ffoniwch berchennog eich dyled ar y rhif ffôn a nodir ar yr ohebiaeth ddiweddaraf a gawsoch ganddynt. Os nad ydych yn gwybod pwy yw perchennog eich dyled, ffoniwch **0300 100 0632** i gael cyngor.

Os oes gennych chi unrhyw fenthyciadau Ad-dalu sy'n Ddibynnol ar Incwm (ICR) nad ydynt wedi eu talu eto, ffoniwch **0300 100 0611** i gael cyngor.

Manylion cyswllt

- d** Os ydych chi wedi darparu cyfeiriad cyswllt newydd, yna bydd unrhyw ohebiaeth gennym yn cael ei hanfon at y cyfeiriad hwnnw. Gallwch ddiweddarau'ch cyfeiriad ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein neu trwy'n ffonio.

Lluoedd Arfog

- e** Efallai eich bod yn gymwys i gael cymorth i astudio cwrs dysgu o bell y tu allan i Gymru os ydych chi neu aelod o'ch teulu (yr ydych yn byw gyda nhw) yn gwasanaethu y tu allan i Gymru ar hyn o bryd yn un o'r canlynol:

- Y Gwasanaeth Llyngesol (Y Llynges Brydeinig a'r Môr-filwyr Brenhinol)
- Y Fyddin
- Yr Awyrlu Brenhinol
- Yr Heddlu Milwrol Brenhinol
- Y Gurkhas

Bydd yr aelodau teuluol canlynol yn fyfyrwyr cymwys:

- Cymar neu bartner sifil sy'n byw gydag aelod o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- Plentyn, llys-blentyn neu blentyn wedi'i fabwysiadu sy'n byw gydag aelod o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- Rhiant dibynnol sy'n byw gyda:
 - Phlentyn sy'n aelod o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
 - Cymar neu bartner sifil y plentyn sy'n aelod o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru

Adran 1 - manylion personol parhad

t Os ydych chi yn y Lluoedd Arfog

Bydd angen i chi anfon llythyr sy'n cadarnhau'ch enw, eich cyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO) a'r wlad yr oeddech yn byw ynddi yn wreiddiol cyn i chi fod yn eich lleoliad cyfredol. Mae'n rhaid iddo hefyd gadarnhau'r wlad rydych chi wedi'i leoli ar hyn o bryd.

Os ydych chi, eich rhiant neu rieni neu bartner yn aelodau o'r Lluoedd Arfog, rhaid i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn y wlad yn y Deyrnas Unedig ble roeddech yn byw fel arfer pan wnaethoch chi/nhw ymrestru. Efallai nad hon yw eich gwlad breswyl bob amser ar adeg yr ymrestriad, er enghraifft, os ydych yn byw'n barhaol mewn ardal arall o'r DU a dim ond wedi symud oherwydd yr ymrestriad.

Os yw'r aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog, bydd angen i chi anfon llythyr sy'n cadarnhau'r canlynol:

- ei enw
- ei gyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO)
- eich enw chi
- ei berthynas gyda chi
- lle maent yn seiliedig ar hyn o bryd
- os ydych chi wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ym mha wlad oedd yn byw ynddi'n wreiddiol cyn bod yn ei lleoliad cyfredol
- os nad ydych chi fyth wedi bod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig fel arfer, y wlad yr ymunodd â'r Lluoedd Arfog ohoni.

Rhaid i'r llythyr a anfonwch gael ei lofnodi, stampio a dyddio gan Swyddfa Cofnodion Uned y Lluoedd Arfog.

Adran 3 - preswyllo

a1 Gwladolyn y DU

Os ydych chi wedi darparu gwybodaeth am eich pasbort y DU neu dystysgrif eni fel rhan o adran 2, nid oes angen i chi anfon tystiolaeth bellach o'ch cenedligrwydd y DU.

t Lluoedd Arfog

Os ydych chi, eich rhiant neu rieni neu bartner yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog, rhaid i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn y wlad yn y Deyrnas Unedig ble roeddech yn byw fel arfer pan wnaethoch chi/nhw ymrestru. Oni bai eich bod yn byw'n barhaol mewn ardal arall o'r Deyrnas Unedig. Gallwch dderbyn copïau ardystiedig o'ch tystiolaeth preswyllo, wedi ei stampio â stamp eichuned. Dylech ddefnyddio eich cyfeiriad BFPO ar gyfer pob gohebiaeth.

a2 Gwladolyn Gwyddelig

t Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi anfon eich pasbort Gwyddelig neu'r UE.

Os oes gennych chi basbort y DU, dylech ddarparu eich manylion pasbort yn adran 2 gan nad oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth o'ch cenedligrwydd.

a3 Aelod o deulu gwladolyn y DU

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- disgynnydd uniongyrchol i wladolyn y DU.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn.

Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

t Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn aelod o deulu gwladolyn y DU trwy anfon ei basbort/phasbort.

Rhaid i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas i'r gwladolyn y DU. Gallai hyn fod:

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil; **neu**
- dystysgrif geni yn dangos eich enw ac enw'r gwladolyn y DU; **a**
- dystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os ydych chi neu'r gwladolyn y DU yn llys-blentyn.

Ar gyfer plant gwladolion y DU, golyga'r term 'plentyn' rywun 'dan 21 oed; neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.'

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a19**.

a4 Statws preswlydd sefydlog neu statws preswlydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Os ydych wedi cael statws preswlydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch preswyliaid yng nghwestiwn **a19**.

a5 Plentyn gwladolyn y Swistir

Rhaid bod gan eich rhiant neu lys riant statws preswlydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Rhaid bod gennych chi statws preswlydd cyn-sefydlog ac yn preswyllo fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academiaidd gyntaf.

t Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom, fel prawf o'ch perthynas.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid i'ch rhiant sy'n wladolyn y Swistir fod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd. Rydym angen llythyr wedi ei lofnodi gan eich rhiant Swisaidd yn datgan ei gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn byw yno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd. Rhaid i'r rhiant hefyd anfon un o'r dogfennau canlynol:

- Datganiadau banc
- Slipiau cyflog
- Cytundeb tenantiaeth/Datganiad morgais
- Bil cyfleustod
- Gohebiaeth Awdurdod Lleol
- Gohebiaeth adran o'r Llywodraeth

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a20**.

a6 Gweithiwr yr AEE neu'r Swistir

Perthynas fy aelod o'r teulu i mi yw:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant; neu
- plentyn, llys blentyn
- aelod o'r teulu arall mewn llinell esgynnol neu ddisgynnol uniongyrchol - ddim ond yn berthnasol i aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, wŷr neu wyres, gor-wŷr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn.

Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU, rhaid eich bod chi a'ch aelod o'r teulu fod wedi derbyn statws preswilydd cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

t Fel prawf o'ch perthynas, rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni ac/neu dystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil.

Fel prawf o statws cyflogaeth cyfredol y gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd, rhaid darparu un o'r canlynol yn dystiolaeth:

- P60 neu lythyr gan gyflogwr os yw'n gweithio ar hyn o bryd;
- Cyfrifon wedi'u harchwilio, ffurflenni treth neu fanylion am ei incwm os yw'n hunangyflogedig;
- Llythyr gan gyflogwr sy'n cadarnhau'r bwriad i barhau i weithio yn ystod y cyfnod pan fydd yn astudio;
- P45, P60 neu lythyr gan gyflogwr blaenorol os yw'n chwilio am waith ar hyn o bryd, neu os yw wedi bod yn gweithio yn y DU yn flaenorol.

Os ydych chi'n rhiant neu berthynas llinell esgynnol uniongyrchol arall i'r gweithiwr, rhaid eich bod yn ddibynnol arnynt.

Ar gyfer plant gweithwyr o'r AEE, golyga'r term 'plentyn' rywun 'dan 21 oed; **neu** ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.' Nid yw hyn yn berthnasol mewn achosion ble mae'r rhiant gweithiwr AEE wedi marw neu adael y DU a bod y plentyn yn aros ymlaen i gwblhau ei addysg yn y DU.

Os cawsoch y caniatâd hwn

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a19**.

Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a20**.

a7 Plentyn gweithiwr Twrcaidd

I gael cyllid i fyfyrwr fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs. Rhaid eich bod yn preswyllo fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE y Swistir neu Dwrci am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom.

t Fel prawf o gyflogaeth eich rhiant yn y DU, rhaid i chi anfon ei gontract/ chontract cyflogaeth.

Rhaid i chi hefyd anfon llythyr y Swyddfa Gartref yn cadarnhau bod gan eich rhiant hawl estynedig i aros yn y DU wedi 31 Rhagfyr 2020.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a20**.

a8 Y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)

Os cawsoch y caniatâd hwn

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a21**.

Dyddiad dod i ben

Os ydych wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

t **Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu**

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Dyddiad dod i ben

Os yw eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a22**.

Cynllun Ex-Gratia Staff Affganaidd a Gyflogwyd yn Lleol

Roedd y cynllun hwn ar gyfer gweithwyr blaenorol llywodraeth y Deyrnas Unedig a ymddiswyddodd neu a ddiswyddwyd o'u swydd. Nid yw gwladolion Affganaidd sydd wedi eu hail-leoli i'r Deyrnas Unedig dan y cynllun hwn yn gymwys i dderbyn cyllid i fyfyrwyr.

a9 Statws preswilydd sefydlog

Mae 'statws preswilydd sefydlog' yn golygu eich bod yn gallu byw yn y DU yn barhaol heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ynghylch hyd eich cyfnod yma.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw un o'r canlynol yn gymwys:

- rydych yn ddinesydd Prydeinig;
- rhoddwyd 'caniatâd i aros am amser amhenodol' i chi;
- mae gennych hawl i gartrefu yn y DU.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch hawl preswyllo parhaol a materion eraill sy'n ymwneud â mewnfudo gan y Swyddfa Gartref.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a19**.

a10 Gynllun Wcráin

Os cawsoch y caniatâd hwn

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a21**.

t Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu

Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Mae'n rhaid eich bod wedi bod yn briod neu'n bartner sifil i'r person â chaniatâd ar ddyddiad y cais am ganiatâd.

Os ydych chi'n blentyn neu'n llysbrentyn i'r person sydd â chaniatâd, mae'n rhaid mai chi oedd y plentyn neu'r llysbrentyn ar ddyddiad y cais am ganiatâd, a hefyd o dan 18 oed ar y dyddiad hwnnw.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a22**.

a11 Statws ffoadur

t Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn ffoadur, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i'r Swyddfa Gartref fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais am loches.

Dyddiad y daw i ben Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwloch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

Os cawsoch y caniatâd hwn

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a21**.

Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a22**.

a12 Person heb Wladwriaeth

t Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

Dyddiad y daw i ben Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwloch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

Os cawsoch y caniatâd hwn

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a21**.

Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a22**.

a13&14 Caniatâd mynediad neu aros

t Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

Dyddiad dod i ben

Os rhoddwyd statws ffoadur heb ddyddiad dod i ben i chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- rhiant/rhieni, llys riant

dylech nodi Amh (amherthnasol) yn y bocs dyddiad dod i ben.

Caniatâd mynediad neu aros

Os cawsoch y caniatâd hwn

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a19**.

Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a20**.

Diogelwch Dyngarol

Os cawsoch y caniatâd hwn

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a21**.

Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a22**.

a15 Adran 67 Deddf Mewnfudo 2017

t Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a21**.

a16 Caniatâd Calais

t Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a21**.

a17 Dioddefwr trais neu gam-drin domestig

t Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel dioddefwr trais domestig, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi neu'ch rhiant/llys-riant wedi derbyn 'caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros' yn y Deyrnas fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, byddwch chi, neu eich rhiant, wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau hyn.

Os cawsoch y caniatâd hwn

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a21**.

Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a22**.

a18 Partner mewn profedigaeth

t Mae angen i chi anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi neu'ch rhiant/llys-riant wedi derbyn 'caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros' yn y Deyrnas fel person sydd wedi bod yn bartner mewn profedigaeth, byddwch chi, neu eich rhiant, wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau hyn.

Os cawsoch y caniatâd hwn

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a'ch hawl i breswyllo yng nghwestiwn **a21**.

Os rhoddwyd y caniatâd hwn i'ch aelod o'ch teulu

Mae angen i chi roi rhai manylion i ni am eich hunaniaeth a hawl preswyllo chi a'ch aelod o'r teulu yng nghwestiwn **a22**.

b2&3 Statws preswyllo

Dylech ddarparu manylion eich cyfeiriad o'r pwynt ble rhoddwyd y statws i chi neu hyd at uchafswm o dair blynedd os rhoddwyd y statws i chi cyn hynny.

Dyddiad cychwyn astudio rhwng

1 Awst a 31 Rhagfyr yn gynhwysol
1 Ionawr a 31 Mawrth yn gynhwysol
1 Ebrill a 30 Mehefin yn gynhwysol
1 Gorffennaf a 31 Gorffennaf yn gynhwysol

Dyddiad cychwyn y flwyddyn academaidd

1 Medi
1 Ionawr
1 Ebrill
1 Gorffennaf

b4 Statws preswyllo

Mae angen y wybodaeth hon arnom oherwydd gallai hanes preswyllo eich aelod o'ch teulu effeithio ar eich cymhwysedd i gael cyllid i fyfyrwyr. Sicrhewch fod y person hwn yn gwybod eich bod yn rhoi ei fanylion i ni.

Os oeddech o dan 18 oed yn y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, mae angen y wybodaeth hon arnom gan ein bod yn cymryd yn ganiataol eich bod yn byw yn yr un lle â'ch rhieni. Os oeddent yn byw neu'n gweithio y tu allan i:

- y Deyrnas Unedig a'i Hynnysoedd, neu
- yn achos gwladolyn o'r UE, yr AEE neu'r Swistir, y tu allan i'r DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir

yn y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ddangos mai seibiant dros dro yn y preswyllyad oedd hwn.

Os oes gennych briod neu bartner, rydym yn cymryd eich bod wedi bod yn byw yn yr un lle â nhw. Os oeddent yn byw neu'n gweithio y tu allan i:

- y Deyrnas Unedig a'i Hynnysoedd, neu
- yn achos gwladolyn o'r UE, yr AEE neu'r Swistir, y tu allan i'r DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir

yn y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ddangos mai seibiant dros dro yn y preswyllyad oedd hwn.

Adran 4 - am eich cwrs a'ch prifysgol neu goleg

Manylion y cwrs

- b** Os na fydd modd cadarnhau'r manylion y byddwch yn eu rhoi i ni am y cwrs eto, gallai eich cyllid i fyfyrwyr gael ei oedi.

Os ydych yn astudio dan drefniant rhan-amser ac os cychwynnoch ar eich cwrs cyn 1 Medi 2014, rhaid eich bod yn bwriadu cwblhau'ch cwrs cyn pen dwy waith yr amser y byddai'n ei gymryd i chi ei orffen dan drefniant amser llawn ar y mwyaf.

Os ydych yn astudio dan drefniant rhan-amser ac os cychwynnoch ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2014, rhaid eich bod yn bwriadu cwblhau eich cwrs cyn pen pedair gwaith yr amser y byddai'n ei gymryd i chi ei orffen dan drefniant amser llawn ar y mwyaf.

Mae Mynediad Uniongyrchol yn golygu dod i mewn i raglen cwrs yn uniongyrchol ar flwyddyn sy'n fwy na blwyddyn gyntaf y cwrs.

Adran 5 - eich prifysgol neu goleg

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i brifysgolion a cholegau wahaniaethu yn erbyn myfyrwyr anabl trwy eu trin yn llai ffafriol yn eu polisiau derbyn neu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Dan y Ddeddf, rhaid i brifysgolion a cholegau wneud addasiadau rhesymol fel nad yw myfyrwyr anabl dan anfantais sylweddol o gymharu â myfyrwyr eraill nad ydynt yn anabl.

Mae hyn yn golygu y gallwch ddweud wrth eich prifysgol neu'ch coleg am eich anabledd, eich cyflwr iechyd meddwl neu'ch anhawster dysgu penodol mewn ffordd hollol gyfrinachol, i sicrhau eich bod yn cael y cymorth y bydd angen i chi ei gael. Fodd bynnag, os na fyddwch yn dymuno dweud wrth eich prifysgol neu'ch coleg, dylech gynnwys llythyr yn esbonio pam nad oeddech eisiau trosglwyddo'r ffurflen i'ch prifysgol neu'ch coleg er mwyn iddynt lenwi'r adran hon.

Adran 6 - eich anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl, anhawster dysgu penodol neu anhwylder sbectrw m awtistiaeth.

a Anabledd, cyflwr iechyd hirdymor neu gyflwr iechyd meddwl

t Ar gyfer pob anabledd neu gyflwr iechyd sydd gennych, anfonwch ddatganiad ysgrifenedig neu lythyr gan feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol cymwys atom i gadarnhau effeithiau hirdymor eich anabledd neu gyflwr iechyd ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol yn cynnwys addysg.

Anhawster dysgu penodol (megis dyslecsia)

Ar gyfer pob anhawster dysgu penodol (ADP) sydd gennych chi, anfonwch adroddiad diagnostig atom wedi ei ysgrifennu yn unol â'r Canllawiau Gweithgor ADP 2005 gan un o'r canlynol:

- Ymarferydd seicolegol
- Athro arbenigol gyda chymhwysiad priodol sy'n meddu ar Dystysgrif Ymarfer Asesiad ADP

Chi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw gostau er mwyn cael y dystiolaeth hon.

Anhwylder sbectrwm awtistiaeth

Anfonwch un o'r canlynol atom:

- Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) gan Awdurdod Lleol
- Cynllun Gofal Iechyd Addysgol
- Cynllun Datblygu Unigol
- Datganiad ysgrifenedig neu lythyr gan feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol cymwys i gadarnhau effeithiau hirdymor eich anhwylder ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol yn cynnwys addysg.
- Llythyr gan Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Cymru yn nodi bod eich tîm wedi adolygu eich gwybodaeth, bod eich atgyfeiriad wedi'i dderbyn a'ch bod ar eu rhestr aros.

Chi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw gostau er mwyn cael y dystiolaeth hon.

- b** A fyddech gystal ag anfon llythyrau sy'n dangos canlyniad pob cais blaenorol
t am gyllid DSA a wnaethoch ac unrhyw Adroddiad Asesiad Anghenion DSA a gawsoch gan yr awdurdod a oedd yn cyllido.

Amodau a Thelerau

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, rhaid iddi gael ei llofnodi ar eich rhan gan eich Atwrneiaeth. Rhaid anfon y llythyr Atwrneiaeth gyda'r cais hwn cyn y derbynnir llofnod gan yr Atwrneiaeth hwnnw.

Rhaid i chi roi gwybod am a darparu manylion unrhyw newid i'ch amgylchiadau y gallent effeithio ar eich hawl i gael cymorth ariannol, ar unwaith. Y newid mwyaf cyffredin mewn amgylchiadau myfyrwyr fyddai:

- os byddech yn absennol o'r cwrs am dros 60 diwrnod oherwydd salwch;
- os byddech yn absennol am unrhyw reswm arall;
- os byddech yn gadael y cwrs neu'n cael eich diarddel o'r cwrs;
- os byddech yn stopio mynychu eich cwrs ac os na fyddech yn bwriadu, neu os na chaniateir i chi, ddychwelyd am weddill y flwyddyn academiaidd;
- os byddech yn trosglwyddo i gwrs gwahanol yn yr un brifysgol neu goleg neu mewn prifysgol neu goleg gwahanol;
- os byddech yn trosglwyddo o gwrs amser llawn i gwrs rhan-amser;
- os byddech yn ailadrodd rhan o flwyddyn eich cwrs neu'r holl flwyddyn; neu
- os byddai dyddiad cychwyn neu orffen eich cwrs yn newid.

Gallwch lawrlwytho ffurflen 'Newid mewn Amgylchiadau' CO1 trwy droi at:
www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf (SLC) a Llywodraeth Cymru yn Rheolyddion Data ar y cyd dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein datganiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys mesur cymhwystra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu cyllid myfyrwyr a chanfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i wneud unrhyw un o'r rhain.

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhynggrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.